Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Gwaith craffu blynyddol 2024-25

Mai 2025

## Cyflwyniad

**1.** Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei greu gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, gan uno tri chorff: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ymgorfforodd hefyd nifer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac, o 1 Ebrill 2016, swyddogaethau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol a oedd yn gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

**2.** CNC yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion adnoddau naturiol, ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol.[1] Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (ar hyn o bryd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS) ac yn destun gwaith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd. Mae Bwrdd CNC yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau statudol yn briodol ac yn effeithiol.

**3.** Ar 12 Mawrth 2025, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu flynyddol gyda chynrychiolwyr CNC, sef Ceri Davies, y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro, Syr David Henshaw, y Cadeirydd a Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cydweithrediad.

[1] Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC): Ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau

# 1. Llywodraethiant

## Cylch gwaith

**4.** Mae llythyr cylch gwaith CNC ar gyfer 2022-26 yn nodi y dylai'r sefydliad integreiddio ei waith a'i weithgareddau â'r amcanion llesiant cyffredinol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.[2] Mae disgwyl i CNC helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran:

- yr economi gylchol ac aer glân;
- ynni;
- rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, draenio cynaliadwy ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd;
- coedwigaeth, natur, tirweddau dynodedig a mynediad i gefn gwlad;
- y môr a physgodfeydd; ac
- ansawdd dŵr.

## Cynllun corfforaethol a chynllun busnes

**5.** Cyhoeddwyd cynllun corfforaethol diweddaraf CNC - *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd* - ym mis Ebrill 2023.[3] Mae'n cyd-fynd â llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth, ac mae'n canolbwyntio ar dri amcan llesiant:

- byd natur wrthi'n gwella;
- cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd; a
- llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf.

**6.** Yn ystod gwaith craffu blynyddol y llynedd, dywedodd Syr David Henshaw fod y cynllun yn foment hollbwysig i CNC, a chyfeiriodd ato fel newid sylfaenol, o ddisgrifio swyddogaethau'r sefydliad i roi pwyslais ar flaenoriaethau a chyflawni.

[2] Llywodraeth Cymru: Cyfoeth Naturiol Cymru: llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth, Chwefror 2023.
[3] CNC: Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, Ebrill 2023.

**7.** Mae cynllun busnes blynyddol CNC ar gyfer 2024-25 yn nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni yn erbyn yr amcanion llesiant a nodir yn *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd* drwy symud tuag at gynllunio amlflwyddyn.[4]

**8.** Dywed CNC:

> *"Mae'r dull hwn yn ein gosod ar lwybr i fod yn sefydliad gwahanol, gan fesur y pethau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf a defnyddio hyn i lywio ein penderfyniadau ar flaenoriaethau."*[5]

**9.** Fodd bynnag, nid yw'r broses hon o newid wedi'i chwblhau eto:

> *"Dyma ein cyfeiriad clir, ond, heb y cynllunio aml-flwyddyn, cam yn unig i'n dull gweithredu newydd yw ein cynllun busnes blynyddol ar gyfer 2024-25 ac nid yw'n adlewyrchu ein huchelgais llawn. Mae cynllun busnes 2024-25 yn dynodi gwahaniaeth mewn naws a dull gweithredu, gyda'r ymrwymiadau blynyddol yn cyd-fynd yn glir â'r amcanion llesiant a'r camau i'w cymryd. Eleni rydym wedi datblygu, fel mesur interim, mesurau allweddol i'w cyflenwi, nid canlyniadau allweddol, nad ydynt mor heriol nac mor SMART ag yr hoffem iddynt fod, ond rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu'r rhain ar gyfer 2025-26. Rydym yn cydnabod bod y newid pwyslais hwn yn sylweddol a bydd angen i ni feithrin ymddiriedaeth a hyder cydweithwyr yn y dull gweithredu dros amser."*[6]

**10.** Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor y dylai CNC roi diweddariad ar hynt y gwaith o ddatblygu'r metrigau perfformiad a'r dangosyddion strategol terfynol hyn.[7] Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2025, ysgrifennodd CNC at y Pwyllgor i ddweud bod y gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd rhaglen yr Achos dros Newid (gweler isod).[8]

**11.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywed CNC ei fod yn canolbwyntio ar alinio ei fframwaith rheoli perfformiad â bwriad y cynllun corfforaethol, ac mae'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i wneud hyn.[9] Mae staff sy'n arwain gwaith ar y fframwaith rheoli perfformiad wedi chwarae rhan fawr yng ngwaith yr Achos

---

[4] CNC: Cynllun busnes 2024-25.
[5] CNC: Cynllun busnes 2024-25.
[6] CNC: Cynllun busnes 2024-25.
[7] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24, Mai 2024.
[8] CNC: Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24: Diweddariadau i argymhellion, Ionawr 2025.
[9] CNC: Tystiolaeth ysgrifenedig Craffu Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, Mawrth 2025.

dros Newid. Mae hyn, ochr yn ochr â swyddi gwag, wedi golygu bod gwaith ar effeithiau'r cynlluniau corfforaethol a'r dangosyddion strategol wedi'i ohirio yn yr hydref. Dywed y papur hefyd fod angen i CNC lenwi swydd wag benodol, ac felly na all gadarnhau dyddiad penodol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar y gwaith hwn. Mae'n gobeithio gwneud hyn erbyn hydref eleni. Pan gafodd ei holi am y swydd wag hon, dywedodd Ceri Davies:

> *"It's not just one vacancy…the team that had led on the developments for the corporate plan are the ones who lead on our performance management framework."*

**12.** Ychwanegodd:

> *"they've been focused on the prioritisation in the Case for Change. So, they've been working on that, working with staff on that area, and we just parked the work that we'd done for now."*[10]

**13.** Pan ofynnwyd iddi pryd y byddai'r swyddi gwag yn cael eu llenwi, dywedodd Ceri Davies:

> *"In the next couple of months. We are releasing now the vacancies that are not required any longer, to balance out reducing redundancies. So, we will this week be going out with a number of vacancies that we can now crack on and fill."*[11]

## Y gyllideb

**14.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, croesawodd CNC y cynnydd yn y cyllid a ddyrannwyd iddo yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.[12] Er nad oedd penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar adeg y sesiwn graffu, roedd tystiolaeth CNC i'r Pwyllgor yn rhagweld y byddai'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn ansawdd dŵr ac mewn camau i gefnogi bioamrywiaeth ac adfer natur.

**15.** Wrth nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y cyllid ychwanegol, dywedodd Rachel Cunningham:

---

[10] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraffau 31 a 33.
[11] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 39.
[12] CNC: Tystiolaeth ysgrifenedig: Craffu Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru, Mawrth 2025.

> *"We also got £5 million for the Infrastructure Consenting Act … we've had another £4 million … to look at very specific areas… water quality, biodiversity, monitoring and evidence, flood risk management, and also our transformation programme….We also then have had a further £12.5 million in specific grants … things like peatland restoration, waste reform, reservoir safety, coal tip safety and the sustainable farming scheme."*[13]

**16.** Yn ei adroddiad diweddar ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau bod digonolrwydd a defnydd cyllid ar gyfer rheoli llifogydd yn cael ei fonitro a'i werthuso, ar ôl iddo gael ei gynnwys ym mhrif linell gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru."*[14]

**17.** At hynny, croesawodd y Pwyllgor y cynnydd o £2.7 miliwn mewn cyllid cyfalaf i gefnogi rhaglen trawsnewid gwasanaethau CNC, yn enwedig ar gyfer gwelliannau i drwyddedau morol a llwyfan cwsmeriaid newydd.

**18.** Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, disgrifiodd Ceri Davies sut y byddai'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddigideiddio a symleiddio'r broses ar gyfer gwneud cais am drwydded forol.[15]

## Swydd y Prif Weithredwr

**19.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ceri Davies fel Prif Weithredwr Dros Dro yn absenoldeb Clare Pillman. Eglurodd y Cadeirydd:

> *"Clare Pillman has been off sick …. and is on the road to recovery, I think. That's why Ceri has been, wonderfully, acting up for us."*

Ar 19 Mawrth 2025, cyhoeddodd CNC ymddeoliad Clare Pillman, gan ddweud y byddai Ceri Davies yn parhau yn rôl y Prif Swyddog Gweithredol dros dro.[16]

---

[13] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 51.
[14] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, 3 Chwefror 2025.
[15] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 54.
[16] CNC: Clare Pillman yn cyhoeddi ei hymddeoliad fel Prif Weithredwr CNC, 19 Mawrth 2025.

## Yr Achos dros Newid

**20.** Ar 6 Tachwedd, cyhoeddodd CNC y byddai'n gwneud newidiadau i'w strwythur er mwyn symleiddio ei weithgareddau a chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol.[17] Mae'r cynigion, sef yr Achos dros Newid, yn cynnwys gostyngiad o 235 yn nifer y staff.

**21.** Mae CNC wedi dweud bod ganddo dros 200 o swyddi gwag, ac y bydd yn ceisio defnyddio'r rhain i gynnig cyflogaeth amgen i staff y mae'r ailstrwythuro'n effeithio arnynt. Mae eisoes wedi cymryd camau eleni i reoli ei gyllideb staff, gan gynnwys rhewi recriwtio a therfynu penodiadau cyfnod penodol.

**22.** Dywed CNC fod angen yr Achos dros Newid er mwyn mynd i'r afael â chyfyngiadau ariannol, ac er mwyn sicrhau bod y sefydliad mewn gwell sefyllfa i gyflawni'r amcanion yn ei gynllun corfforaethol newydd. Ei nod yw dod o hyd i arbedion o £12 miliwn, gyda £10.9 miliwn i'w wireddu erbyn 1 Ebrill 2025. Dechreuodd CNC flwyddyn ariannol 2024-25 gyda £9 miliwn o ddiffyg ac mae'n amcangyfrif y byddai wedi bod yn fwy na £17 miliwn erbyn 2026-27 pe na bai camau'n cael eu cymryd.

**23.** Mae cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi mynegi pryder. Mae WWF Cymru wedi dweud bod cynlluniau CNC yn peryglu byd natur Cymru, ac mae wedi mynegi pryder na fydd gan y rheoleiddiwr ddigon o gapasiti i ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol.[18]

**24.** Gan gydnabod y newid hwn yn null gweithredu CNC, dywedodd Ceri Davies:

> *"Our corporate plan provides a bit of a pivot point…. we are, obviously, going through a restructuring to reprioritise … and focus more on the things that only we can do, that we've been set up to deliver."*[19]

**25.** Dywedodd Syr David Henshaw:

> *"It's difficult to understate the shift here from where we were as an organisation and where we're going … because a lot of our delivery model has been locked in the past, really, in the way we measure things and how we do things….we [are]*

---

[17] CNC: Achos dros Newid, Tachwedd 2024.
[18] BBC News: Natural Resources Wales job cuts put nature at risk, campaigners warn, 23 Medi 2024.
[19] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 5.

> *fundamentally changing the delivery model, and that means a lot of change for a lot of people, but it means more focus for the organisation."*[20]

## Ein barn ni

Ar adeg ein gwaith craffu blynyddol y llynedd, roedd CNC yn ddiweddar wedi datblygu ei gynllun corfforaethol newydd, Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd. Bryd hynny, testun sylw ein gwaith craffu oedd gweithredu'r cynllun hwn drwy ddatblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth, gan CNC gyda Llywodraeth Cymru, ar draws ystod o feysydd blaenoriaeth, ynghyd â datblygu dangosyddion strategol newydd.

Serch hynny, bryd hynny, roedd y sefyllfa gyllidebol yn heriol. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol ar y pryd, Clare Pillman, wrth y Pwyllgor nad oes modd gweithio gyda llai o gyllideb a llai o bobl a darparu'r un gwasanaethau.

Yn y deuddeg mis ers hynny, mae gwir faint yr heriau y mae CNC yn eu hwynebu wedi dod i'r amlwg. Mae cryn bryder, a hynny'n ddealladwy, wrth i CNC gyhoeddi toriadau, colli swyddi a gostyngiadau eang yn ei wasanaethau. Er ei fod wedi'i ddisgrifio fel trobwynt, mae'n amlwg bod CNC yn sefydliad sy'n wynebu heriau digymar. Mae hynny'n digwydd yn ystod cyfnod pan fo newidiadau yn ei dîm arwain. Yn ddiweddar, cyhoeddodd CNC ymddeoliad ei Brif Swyddog Gweithredol, a bydd cyfnod swydd y Cadeirydd yn dod i ben ym mis Hydref 2025.

Mae'r Pwyllgor yn dymuno cofnodi ein diolch i bawb sy'n gweithio yn CNC yn ystod y cyfnod hwn. Ni all unrhyw sefydliad ymgymryd â newid o'r fath heb i hynny effeithio ar forâl y staff. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith hanfodol y mae'r sefydliad yn ei wneud a'r effaith y bydd y cyfnod hwn yn ei chael ar staff ar bob lefel.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i CNC symud yn gyflym i recriwtio Prif Swyddog Gweithredol parhaol o fewn y chwe mis nesaf a sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer olyniaeth drefnus o ran Cadeirydd newydd ym mis Hydref 2025.

[20] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 13.

# 2. Effaith yr Achos dros Newid

**26.** Fel rhan o raglen yr Achos dros Newid, cyhoeddodd CNC y byddai'n rhoi'r gorau i weithredu'r ddarpariaeth arlwyo a manwerthu yn ei dair canolfan ymwelwyr (Bwlch Nant yr Arian, Ynyslas, a Choed y Brenin) o 31 Mawrth 2025 ymlaen.[21] Mae CNC yn bwriadu lansio proses gyhoeddus i chwilio am bartneriaid i redeg y gwasanaethau hyn.

**27.** Mae CNC wedi dweud y bydd yr holl lwybrau, meysydd parcio, mannau chwarae a chyfleusterau toiled yn dal i fod ar agor, a'i fod yn chwilio am gyflenwyr i ddarparu gwasanaethau consesiwn dros dro ym mhob un o'r canolfannau.

**28.** Wrth roi diweddariad i'r Pwyllgor, dywedodd CNC:

> *"Hoffem hefyd egluro nad yw staff ein Canolfan Ymwelwyr yn gyfrifol am reoli'r tir yn y canolfannau ac o'u cwmpas. Cyfrifoldeb ein timau rheoli tir yw hyn. Felly, ni fydd unrhyw newid i'r modd y caiff llwybrau a mynediad eu rheoli nac o ran cynnal a rheoli bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol."*[22]

**29.** Fodd bynnag, mae CNC hefyd wedi cydnabod:

> *"bod rhai dyletswyddau a gyflawnir gan staff y canolfannau ymwelwyr nad ydynt yn ymwneud â manwerthu ac arlwyo yn unig – er enghraifft, mae rhai aelodau staff ym Mwlch Nant yr Arian yn cynorthwyo i fwydo'r barcutiaid coch."*[23]

**30.** Mae'r newidiadau arfaethedig wedi bod yn destun pryder sylweddol ymysg y cyhoedd ac yn wleidyddol. Cafodd deiseb ac arni dros 13,000 o lofnodion ei thrafod gan y Senedd ar 9 Hydref 2024.[24] Mae'r Pwyllgor wedi cael gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Deisebau ac oddi wrth rai o'r rheini sy'n pryderu am y

---

[21] CNC: Y diweddaraf am fanwerthu ac arlwyo yng nghanolfannau ymwelwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, 20 Tachwedd 2024.
[22] Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24: Diweddariadau i argymhellion, Ionawr 2025.
[23] Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb gan CNC i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 4 Mawrth 2025.
[24] Deiseb y Senedd: Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.

cynigion.[25] Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at CNC ynglŷn â'r pryderon hyn ar 25 Mawrth.[26] Ymatebodd Syr David Henshaw ar 15 Ebrill 2025.[27]

**31.** Pwysleisiodd Syr David Henshaw wrth y Pwyllgor:

> *"These forests and places are not being closed. Let's be clear about that—absolutely not being closed. What is being looked at is the closure of cafe facilities and shops, which, actually, we've been running. It's near enough £1 million a year that it's been costing us to do that. So, we're looking for other partners, if they wish, to take some of those facilities over. But other facilities will still be available."*[28]

**32.** Er bod y ddarpariaeth arlwyo a manwerthu yn y canolfannau ymwelwyr wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2025, nid yw CNC wedi dechrau'r broses dendro gyhoeddus eto i ddod o hyd i weithredwyr newydd yng Nghoed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian. Dywed CNC fod diddordeb wedi bod yn y ddau safle ond nad yw wedi pennu amserlen ar gyfer y broses gaffael. Dywedodd Syr David Henshaw:

> *"We've had to wait, for some legal reasons, to actually stop the facilities and then start the tender operations. We hope to move to a position in the next few months"*.[29]

**33.** Ychwanegodd Ceri Davies:

> *"What we're looking at, in the meantime… is around concessions, a coffee stand in facilities—the same in Ynyslas, Coed y Brenin and Nant yr Arian—so that we're not losing customers… before the opportunity arises for people to take them on in the longer term."*[30]

---

[25] Pwyllgor Deisebau'r Senedd: Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at CNC, 7 Chwefror 2025.
[26] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Llythyr at Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, 25 Mawrth 2025.
[27] CNC: Llythyr oddi wrth CNC at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Ebrill 2025.
[28] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 83.
[29] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 84.
[30] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 88.

### Canolfan ymwelwyr Ynyslas

**34.** Mae canolfan ymwelwyr Ynyslas yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi ac, o'r herwydd, mae ganddi anghenion a gofynion statudol penodol. Holodd y Pwyllgor CNC ynghylch y dull gweithredu yn Ynyslas, gan dynnu sylw at y ffaith ei fod yn safle pwysig ar gyfer cadwraeth natur, yn gartref i rywogaeth warchodedig, sef y cwtiad torchog, ac yn aber â statws baner goch.

**35.** Mae CNC yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer defnydd cymunedol o'r cyfleusterau yn Ynyslas, yn hytrach na chynnig y ganolfan ar delerau masnachol. Bydd yn cadw swyddfa ar y safle ar gyfer staff rheoli tir. Mae hefyd yn chwilio am dendrau ar gyfer rheoli safle maes parcio'r traeth yn llawnamser, am gyfnod o dair blynedd.

**36.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod staff arlwyo yn cyflawni swyddogaeth ehangach o ran rheoli'r safle.

**37.** Dywedodd Ceri Davies:

> *"In terms of the importance of the nature reserve, that will be with our land management teams, who will look after the nature reserve and what's required to keep it in the condition that it needs to be in."*[31]

**38.** Wrth ymateb i'r pryderon hyn, ychwanegodd Syr David Henshaw yn ei lythyr:

> "Er mai dim ond un unigolyn sy'n gweithio fel swyddog GNG yn Ynyslas, mae tîm ehangach o arbenigwyr cadwraeth a rheoli tir yn ei gefnogi a bydd yn parhau i wneud hynny. Nawr bod ein gwasanaethau canolfan ymwelwyr wedi dod i ben, bydd y Warchodfa Natur Genedlaethol yn parhau i gael ei rheoli fel y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol eraill rydym yn eu rheoli ledled Cymru, lle nad oes darpariaeth canolfan ymwelwyr."[32]

## Gwasanaethau eraill

**39.** Mae CNC wedi cytuno ar newidiadau i'w Grŵp Rheoli Adnoddau Naturiol, sy'n defnyddio tystiolaeth ac yn darparu cyngor i sicrhau canlyniadau

[31] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 96.
[32] CNC: Llythyr oddi wrth CNC at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Ebrill 2025.

amgylcheddol integredig ar gyfer bioamrywiaeth, tir, dŵr a'r môr. Bydd hyn yn cynnwys cwtogi:

- gweithgareddau sy'n ymwneud â pholisi amgylcheddol strategol a newid hinsawdd;
- gwaith ar Ddatganiadau Ardal, cydlynu a chefnogi gwaith cynllunio llesiant, a'r rhaglen seilwaith gwyrdd; a
- gweithgareddau hamdden a mynediad i'r awyr agored.

**40.** Mae gan CNC gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys diwydiant a gwastraff, ansawdd ac adnoddau dŵr, coedwigaeth, pysgodfeydd, diogelu rhywogaethau, a safleoedd dynodedig.

## Gorfodi

**41.** Mae CNC wedi dweud y bydd "rhai gostyngiadau bach mewn gorfodi" a rhai gostyngiadau o ran datblygu dulliau rheoleiddio o ganlyniad i'r Achos dros Newid.[33] Bydd mwy o gapasiti cydymffurfio rheoleiddiol ar gyfer dŵr a bydd y lefelau presennol yn cael eu cynnal ar gyfer gwastraff a diwydiant.

**42.** Mae CNC hefyd yn adolygu'r ffordd y mae'n rheoli digwyddiadau llygredd. Bydd yn mabwysiadu "goddefgarwch uwch o risg", gan leihau nifer y digwyddiadau categori isel y mae'n ymateb iddynt, er mwyn canolbwyntio amser ac ymdrech ar y sectorau a'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd.[34]

**43.** Mae CNC wedi wynebu beirniadaeth yn y gorffennol o'r ffordd y mae'n ymateb i ddigwyddiadau llygredd dŵr ac yn ymchwilio iddynt.[35]

**44.** Pan ofynnwyd iddi sut y byddai'r Achos dros Newid yn effeithio ar wasanaethau gorfodi, dywedodd Ceri Davies wrth y Pwyllgor:

> *"Enforcement is one of those areas that's wholly funded through grant in aid. So, we have had to take some measures to cut back there.... We are, though, streamlining our processes to ensure that we can continue to do the best we can with the investment that we are continuing to make in enforcement."*[36]

[33] Ymchwil y Senedd, Mae CNC yn canfod £12 miliwn o arbedion. Tachwedd 2024.
[34] Ymchwil y Senedd, Mae CNC yn canfod £12 miliwn o arbedion. Tachwedd 2024.
[35] BBC News: River pollution: Shake-up call for investigations in Wales, 20 Ionawr 2022.
[36] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 108.

**45.** Dywedodd Ceri Davies wrth y Pwyllgor hefyd:

> *"Enforcement is obviously an important part of our role, but where we want to put more investment … is in the preventative work that comes ahead of that, because when we're in the enforcement territory, the damage has already been done. So, what we want to do is to spend more of our time with operators and organisations to ensure that they comply with the requirements, and then we don't need to take enforcement action."*[37]

**46.** Clywodd y Pwyllgor hefyd gan CNC nad yw'r sancsiynau a'r cosbau'n ddigon uchel, a dywedodd Syr David Henshaw ei fod wedi trafod hynny â'r Dirprwy Brif Weinidog.[38]

## Rheoli perygl llifogydd

**47.** Mae gan CNC rôl oruchwylio strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd, yn ogystal â phwerau i reoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Mae ei wasanaethau'n cynnwys modelu a rhagweld perygl o lifogydd, rhoi cyngor ac arweiniad i awdurdodau cynllunio, gweithredu system rhybuddio rhag llifogydd, a darparu gwasanaeth 'cynllunio, ymateb a chynorthwyo' yn ystod achosion o lifogydd.

**48.** Dywed CNC yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor y bydd yn cynnal adolygiad o'i Wasanaeth Rheoli'r Perygl o Lifogydd i ddod o hyd i £1.1 miliwn o arbedion ychwanegol, i'w gwireddu erbyn 1 Ebrill 2026. Dywedodd o'r blaen ei fod yn ceisio dod o hyd i £2.1 miliwn o arbedion o fewn y gwasanaeth.[39]

**49.** Yn 2020, cynhaliodd CNC adolygiad o'i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn dilyn Stormydd Ciara, Dennis a Jorge. Awgrymodd y byddai angen rhwng 60 a 70 o staff ychwanegol dros y tymor hir i gynnal y gwasanaeth a chyflawni gwelliannau allweddol.

**50.** Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd CNC ei adroddiad, Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Canfu'r adroddiad y byddai mynd i'r afael â'r perygl o lifogydd y mae rhagamcanion newid hinsawdd yn y dyfodol yn

---

[37] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 107.
[38] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraffau 136 a 142.
[39] Ymchwil y Senedd, Mae CNC yn canfod £12 miliwn o arbedion. Beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer ei wasanaethau? 8 Tachwedd 2024.

eu creu ledled Cymru yn "golygu buddsoddiad sydd 3.4 gwaith yn uwch na'r lefelau ariannu presennol".[40]

**51.** Fel y trafododd y Pwyllgor yn ystod ei waith craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae cyllid llifogydd CNC wedi'i ymgorffori yn ffrwd ariannu gyffredinol CNC. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Brif Weinidog ynghylch lefel yr oruchwyliaeth sy'n bosibl o ganlyniad i'r trefniant hwn. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor:

> *"NRW will bring forward their proposals for capital funding each financial year … They'll be presented very specifically to the flood and coastal risk management board, the programme board, for agreement in February. My officials are in regular dialogue with NRW throughout the year to monitor this spend and the investment, the flood investment, reflects our Welsh Government strategic priorities and our commitments as well."*[41]

**52.** O ran llifogydd, gofynnodd y Pwyllgor pa lefel o doriadau oedd yn cael ei gwneud yn y Gwasanaeth Rheoli'r Perygl o Lifogydd. Dywedodd Rachel Cunningham:

> *"We've identified £1 million of savings within the flood-risk management service. …. However, we did recognise that our flood risk service is an absolute core duty and that we are facing more and more flood events because of climate change. So, as a result of that, the extra funding that the chair and the Deputy First Minister had agreed, we were able to put back into that service £1.1 million, which meant that they didn't need to find any further savings."*[42]

[40] CNC: Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, Ionawr 2024.
[41] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 80.
[42] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 113.

## Ein barn ni

Mae CNC wedi bod yn esblygu ac yn newid yn gyson ers blynyddoedd lawer. Disgrifir rhaglen yr Achos dros Newid fel newid sylfaenol i'r model cyflawni, a fydd yn golygu llawer o newid i lawer o bobl.[43]

Bydd y rhaglen yn cynnwys llawer o ddiswyddiadau ac adleoliadau a bydd yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen ledled y sefydliad. Disgwylir i'r newid hwn bara drwy gydol y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Cydnabu Syr David Henshaw y bydd yn 12 mis anodd.[44]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith ar wasanaethau rheng flaen, fel y mae'n pryderu am yr effaith ar weithlu CNC. Rydym yn debygol o weld hyn yn effeithio ar holl ystod gwasanaethau CNC sy'n hollbwysig o ran gallu Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd, llifogydd, llygredd amgylcheddol a gwasanaethau amgylcheddol hanfodol eraill.

**Canolfannau ymwelwyr**

Mae dyfodol tair canolfan ymwelwyr CNC yn destun pryder mawr ymhlith y cyhoedd, a hynny'n ddealladwy. Mae cau'r canolfannau ymwelwyr wedi bod yn destun deisebau a dadleuon yn y Senedd ac mae Aelodau o bob plaid wedi mynegi pryderon. Mae'r canolfannau hyn yn chwarae rhan bwysig o ran ymgysylltu â'r gymuned a thwristiaeth. Bydd eu cau yn gryn ergyd.

Er bod CNC yn pwysleisio y bydd y safleoedd ymwelwyr yn ehangach yn aros ar agor, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod canolfannau ymwelwyr yn rhan hanfodol o'r "cynnig i ymwelwyr", a hebddynt, efallai na fydd y safleoedd yn gallu parhau i ddenu'r ymwelwyr yr arferid eu gweld.

Codwyd pryderon pellach ynghylch cyfraniad penodol y staff yng nghanolfan ymwelwyr Ynyslas, lle y mae CNC wedi cydnabod, er nad yw staff y ganolfan yn gyfrifol am reoli tir na chynefinoedd bywyd gwyllt, nad dim ond cyflawni rôl manwerthu ac arlwyo y mae staff y ganolfan ymwelwyr. Er enghraifft, mae rhai staff ym Mwlch Nant yr Arian yn helpu i fwydo'r barcutiaid coch.[45] Yn wyneb heriau cyllidebol o'r fath, mae'n ddealladwy bod CNC yn teimlo y gellid rhoi

[43] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 13.
[44] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 27.
[45] Pwyllgor Deisebau'r Senedd: Llythyr oddi wrth CNC at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, 4 Mawrth 2025.

caffis a chyfleusterau parcio ar gontractau allanol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am y ffordd y mae'r cyfnod trosglwyddo hwn yn cael ei reoli.

Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom argymell y dylai "CNC ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau ar gwtogi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Dylai'r strategaeth hon geisio rheoli disgwyliadau ac esbonio newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau." Roedd diweddariad CNC ym mis Ionawr 2025 yn cyfeirio at y "camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi trosglwyddiad llyfn".[46] Fodd bynnag, nid yw'r nod canmoladwy hwn yn cael ei gyflawni. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd rhai mesurau arfaethedig, megis rhoi'r gorau i weithredu'r canolfannau ymwelwyr a rhoi gwaith rheoli meysydd parcio'r canolfannau ar gontract allanol, yn ei gwneud yn llai hyfyw i eraill gymryd drosodd y cyfleusterau hyn.

Mae'r Pwyllgor yn hynod siomedig bod y canolfannau ymwelwyr wedi cau. Mae'r cyfle i sicrhau parhad gwasanaethau eisoes wedi'i golli. At hynny, mae'n dal i fod yn aneglur iawn a oes gan CNC unrhyw gynllun neu weledigaeth ar gyfer canolfannau ymwelwyr hyfyw a chynaliadwy, lefel y gwasanaeth y byddai'n disgwyl ei gweld a'r amserlen ar gyfer ailagor y canolfannau. Dylai cynllun o'r fath fod wedi'i ddatblygu ymhell cyn rhoi'r gorau i weithredu'r canolfannau ymwelwyr. Rhaid ei ddarparu ar fyrder yn awr.

**Llifogydd**

Tua diwedd 2024, achosodd Stormydd Bert a Darragh lifogydd mawr ac aflonyddwch eang. Roedd hyn yn cynnwys difrod i gartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol mewn rhannau o Gymru. Wrth i ddigwyddiadau tywydd eithafol ddigwydd yn amlach o ganlyniad i newid hinsawdd, mae disgwyl i'r perygl o lifogydd gynyddu, ynghyd â chost rheoli hynny. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o reoli perygl llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ac fel yr ydym eisoes wedi'i nodi, mae angen mwy o fuddsoddiad er mwyn cyd-fynd â newid hinsawdd fel y dangosir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru.[47]

Er ein bod yn croesawu'r newyddion fod cyllid ychwanegol gan y llywodraeth wedi atal toriadau arfaethedig i'r gwasanaeth llifogydd, mae hyn yn dangos y

[46] CNC: Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24: Diweddariadau i argymhellion, Ionawr 2025.
[47] Llywodraeth Cymru: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Hydref 2020.

peryglon y mae toriadau arfaethedig CNC yn eu creu i allu Cymru i wrthsefyll llifogydd. Byddwn yn ystyried y materion hyn yn fanylach yn adroddiad y Pwyllgor sydd ar ddod ar effaith Stormydd Bert a Darragh.[48]

**Gorfodi**

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, mae CNC ar flaen y gad o ran ymateb Cymru, gan sicrhau y cydymffurfir ag ystod eang o reoliadau ynghylch dŵr, gwastraff, diwydiant ac ymateb i ddigwyddiadau llygredd.

Felly, mae penderfyniad CNC i fabwysiadu "goddefgarwch uwch o risg" wrth reoli digwyddiadau llygredd yn destun pryder. Gellir gweld rhesymeg mewn canolbwyntio ar y meysydd sy'n effeithio fwyaf ar yr amgylchedd, ond mae'n dal i fod yn aneglur beth fydd effaith y diffyg gorfodi anochel mewn meysydd eraill, hyd yn oed os yw'r digwyddiadau hyn yn achosi llai o ddifrod amgylcheddol. Nododd y Pwyllgor yn adroddiad y llynedd y pryder eang ynghylch pa mor ddigonol oedd y gyllideb o safbwynt gorfodi materion amgylcheddol. Mae CNC eisoes yn wynebu beirniadaeth sylweddol am ei ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Nid yw'n glir i ni sut y gellir cyfiawnhau llai o orfodi drwy roi pwyslais ar waith ataliol.

Mae'r Pwyllgor wedi clywed yn gyson nad yw CNC yn cael ei ariannu'n ddigonol i ymdrin â'i swyddogaethau, ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau niferus. Mae blynyddoedd o danfuddsoddi wedi rhoi gormod o bwysau ar adnoddau CNC. Mae hyn yn amlwg wedi cyfyngu ar ei allu i ymateb yn effeithiol i'r argyfwng byd natur a hinsawdd. Rydym yn dal i bryderu mai canlyniad anochel y toriadau fydd gwanhau ymhellach allu CNC i ymateb.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i CNC ddarparu cynllun credadwy ar fyrder ar gyfer ailagor y tair canolfan ymwelwyr. Rhaid i hyn gynnwys eglurder ynghylch ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y canolfannau ymwelwyr, y lefelau gwasanaeth y mae'n dymuno eu gweld a strategaeth ariannol hyfyw ac amserlen ar gyfer cyflawni hyn. Dylid darparu'r cynllun hwn i'r Pwyllgor o fewn tri mis.

**Argymhelliad 3.** O ran Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, rhaid i CNC nodi sut y mae'n bwriadu rheoli'r warchodfa natur er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, ac i'r cyhoedd yn ehangach, y bydd hyn yn ddigonol, o leiaf, i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

---

[48] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Ymateb i stormydd

**Argymhelliad 4.** Dylai CNC sicrhau ei fod yn monitro ac yn gwerthuso digonolrwydd y cyllid ar gyfer rheoli llifogydd a'r defnydd ohono. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis er mwyn sicrhau bod hyn yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 5.** Dylai CNC barhau i fonitro'n ofalus ei berfformiad o ran atal digwyddiadau llygredd amgylcheddol ac ymateb iddynt, er mwyn sicrhau nad yw ei newid o ran pwyslais yn arwain at fwy o ddigwyddiadau llygredd neu fethiant i ymateb.

**Argymhelliad 6.** Dylai CNC ddweud wrth y Pwyllgor ble y mae o'r farn bod lefel y sancsiynau a'r dirwyon yn rhy isel iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio amgylcheddol yn effeithiol.

**Argymhelliad 7.** Dylai CNC barhau i bwyso am gyfundrefn ariannu amlflwyddyn i'w helpu i reoli ei gyllidebau ar gyfer y tymor hir.

# 3. Materion treth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

**53.** Ym mis Hydref 2024, rhoddodd Llywodraeth Cymru fenthyciad o £19 miliwn i CNC ar gyfer atebolrwyddau treth nad oedd wedi'u talu yn dilyn ymchwiliad gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Mae'r bil treth yn ymwneud â materion cydymffurfio hanesyddol o ran gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres o dan reoliadau IR35.[49]

**54.** Dywed tystiolaeth ysgrifenedig CNC i'r Pwyllgor

> *"Yn ddiweddar, cafodd CNC gyngor proffesiynol gan Deloitte, sydd wedi darparu adroddiad yn adolygu ymgysylltiad CNC â'r contractwyr hyn yn y gorffennol. Mae disgwyl i'r adroddiad gael ei ystyried gan fwrdd CNC y mis hwn. Yn amodol ar gymeradwyaeth y bwrdd, bydd Deloitte yn ysgrifennu at CThEF erbyn diwedd mis Chwefror yn amlinellu ein sefyllfa a maint y rhwymedigaeth a dderbyniwyd. Byddai CThEM wedyn yn gallu adolygu amgylchiadau trethiant cwmnïau gwasanaeth unigol a phersonol y contractwyr dan sylw i gyfrifo'r rhwymedigaeth derfynol sy'n ddyledus gan CNC, gan gynnwys unrhyw log a chosbau."*[50]

**55.** Mae CNC wedi cytuno ar randaliad ar gyfer ad-dalu'r arian a roddwyd ar gyfer 2024-25 gyda Llywodraeth Cymru, ac mae wedi cyflwyno cynnig ar gyfer ad-dalu'r gweddill yn y dyfodol (a fydd yn amodol ar ffigur terfynol y setliad gyda CThEF).

**56.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig CNC yn nodi bod cydweithwyr yn CThEF a Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn wythnosol i fonitro cynnydd a chytuno ar gerrig milltir er mwyn datrys y mater.[51]

**57.** Dywedodd y Pwyllgor yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26:

> *"Amlygodd y benthyciad o £19 miliwn i fynd i'r afael â materion treth fethiannau llywodraethu difrifol yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'r Pwyllgor a'r*

[49] BBC News: Welsh ministers pay £19m to settle unpaid tax bill, 22 Hydref 2024.
[50] CNC: Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu Blynyddol ar CNC, Mawrth 2025.
[51] CNC: Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu Blynyddol ar CNC, Mawrth 2025.

*rhanddeiliaid ei bod yn fodlon bod goruchwyliaeth briodol bellach ar waith, ac na fydd y materion hyn yn digwydd eto."*[52]

**58.** Mewn datganiad ym mis Chwefror 2025, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod disgwyl i'r atebolrwydd terfynol gael ei gadarnhau mewn pryd i'w gynnwys yng nghyfrifon blynyddol CNC ar gyfer 2024-25 a bod "trefniadau monitro mwy manwl ar waith o hyd er mwyn rhoi sicrwydd o ran ein goruchwyliaeth o CNC."[53]

**59.** Dywedodd Syr David Henshaw wrth y Pwyllgor fod y mater hwn yn effeithio ar lawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus:

> *"This is not just us. We are amongst many …public sector organisations who are in this position as a result of very different interpretations of rules that the HMRC put down then changed …. We appear to be the first one in Wales that HMRC have taken an interest in. I don't know of any others at the moment, but our sense is that there will be others coming along."*[54]

**60.** Dywedodd Rachel Cunningham wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei ad-dalu i'r Llywodraeth dros gyfnod o ddeng mlynedd. Cytunodd ei fod yn cael ei ad-dalu o arian a fyddai fel arfer ar gael i CNC i ddarparu ei wasanaethau.[55]

**61.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai CNC yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Dywedodd Syr David Henshaw:

> *"A number of steps we've taken already. And let's be fair, the oversight issues triggered by IR35 are appropriate and the DFM and I have reached agreement about what those are. There's a series of objectives, if you like, and monitoring measures that are in place. We have a risk register—always have had a risk register the last few years—and that is, again, more transparent, I think, to the board and to the Welsh Government. There are a*

---

[52] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, 3 Chwefror 2025.
[53] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Trosglwyddiad Cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Rhwymedigaeth IR35, 21 Chwefror 2025.
[54] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 147.
[55] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraffau 156-158.

*number of other steps we've taken, particularly in relation to off-payroll contractors."*[56]

## Ein barn ni

Amlygodd y benthyciad o £19 miliwn i fynd i'r afael â materion treth fethiannau llywodraethu difrifol yn CNC. Ni ddylai unrhyw fethiannau tebyg mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus roi unrhyw gysur i CNC. Yn wir, mae'n destun siom na wnaeth y profiad mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, yn ôl pob tebyg, seinio'r "larwm" y gellid bod wedi'i ddisgwyl.

Rhaid i CNC a Llywodraeth Cymru roi sicrwydd i'r Pwyllgor ac i'r rhanddeiliaid eu bod yn fodlon bod goruchwyliaeth briodol bellach ar waith, ac na fydd y materion hyn yn digwydd eto. Mae'n briodol bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau goruchwylio mwy manwl ar waith. Serch hynny, ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn, a gwasanaethau'n cael eu torri a'u cau, mae'n destun gofid mawr fod arian trethdalwyr, i bob pwrpas, yn cael ei ddargyfeirio o wasanaethau rheng flaen er mwyn talu am gamgymeriadau o'r fath.

**Argymhelliad 8.** Wedi i'r trafodaethau â CThEF ddod i ben, dylai CNC roi diweddariad llawn ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, ynghyd ag esboniad llawn o sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ad-dalu drwy arbedion effeithlonrwydd a heb effeithio ar wasanaethau rheng flaen.

**Argymhelliad 9.** Yn ogystal â'r trefniadau monitro mwy manwl y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u rhoi ar waith, mae'n hollbwysig bod gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad gyda CThEF drwy adolygiad cynhwysfawr. Dylai CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gan roi manylion llawn ynghylch ei ddull gweithredu.

[56] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 170.

# 4. Y Bil Llywodraethiant Amgylcheddol

**62.** Disgwylir i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Mehefin 2025, a bydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i CNC. Disgwylir i'r Bil:

- gyflwyno fframwaith i ddiogelu ac adfer natur, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth;
- cyflwyno egwyddorion amgylcheddol cyffredinol a fydd yn sail i bob penderfyniad polisi yn y dyfodol; a
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol parhaol i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cynnal cyfraith amgylcheddol.[57]

**63.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad diweddar y Pwyllgor i fioamrywiaeth, cydnabu CNC fod diffyg adnoddau digonol ar gyfer gwaith monitro.[58] Dywedodd fod ehangu gwaith monitro i gwmpasu o leiaf 30 y cant o'r tir a'r môr, sy'n darged bioamrywiaeth byd-eang,[59] yn "her sylweddol". Nododd hefyd fod angen buddsoddi mewn seilwaith monitro, datblygu dulliau safonol, a meithrin gallu ar bob lefel.[60]

**64.** Gofynnodd y Pwyllgor i CNC a oedd yn hyderus y byddai ganddo ddigon o adnoddau i weithredu'r fframwaith bioamrywiaeth newydd a ddisgwylir yn y Bil. Mae diffyg adnoddau ar gyfer monitro, yn benodol, wedi bod yn destun pryder i'r sector amgylcheddol. Er enghraifft, CNC sy'n gyfrifol am fonitro cyflwr nodweddion safleoedd gwarchodedig drwy "Fonitro Safonau Cyffredin" y DU. Mae Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU wedi dweud y dylai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu monitro o leiaf bob chwe blynedd o dan y trefniadau Monitro Safonau Cyffredin. Fodd bynnag, ni ymwelwyd â rhai ohonynt ers dros ddeng mlynedd.[61]

---

[57] Llywodraeth Cymru: Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth, Ebrill 2024.
[58] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, Ionawr 2025.
[59] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, 2022.
[60] CNC: Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, Hydref 2024.
[61] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU, 2024.

**65.** Dywedodd Ceri Davies fod monitro yn faes lle y bydd angen rhagor o adnoddau er mwyn gallu symud ymlaen yn erbyn y targedau bioamrywiaeth newydd y disgwylir iddynt gael eu cynnig o dan y Bil. Dywedodd:

> *"That is an area that is going to need some sustained investment. …there's a more significant conversation to be had about that whole monitoring of the targets, the condition, the additional sites that would make up the 30x30 commitment."*[62]

**66.** Yn ei chynnig ar gyfer corff llywodraethiant amgylcheddol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau nad yw ei swyddogaethau'n gorgyffwrdd â swyddogaethau CNC, er enghraifft rôl CNC o ran darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.[63] Wrth sôn am hyn, dywedodd Ceri Davies:

> *"There will be work to be done, but I think it'll be around setting out clearly where those responsibilities complement each other, rather than overlap."*[64]

## Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn gyson wedi clywed galwadau am fwy o gyllid i helpu CNC i fonitro a rheoli ardaloedd gwarchodedig, darparu arbenigedd ecolegol, a gorfodi rheoliadau amgylcheddol. Yn ein hadroddiad diweddar ar fioamrywiaeth, gwnaethom ddweud ein bod yn pryderu, heb ddigon o adnoddau ar gyfer CNC, na fydd mentrau allweddol fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn ddigonol i atal a gwrthdroi colli natur.

Er bod CNC wedi dweud ei fod eisoes yn cyflawni rhai o'r gweithgareddau a fydd o fewn cwmpas y Bil sydd ar ddod, dywedodd y bydd yn gwneud mwy o hynny, ac ar raddfa fwy.[65] Felly, mae'n hanfodol bod CNC yn cael adnoddau priodol i wireddu uchelgeisiau'r ddeddfwriaeth. Ni fydd y targedau bioamrywiaeth yn cael yr effaith a ddymunir os nad oes modd monitro ac adrodd ar gynnydd tuag atynt a sicrhau eu bod yn esgor ar welliannau drwy

[62] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 188.
[63] Llywodraeth Cymru: Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth, Ebrill 2024.
[64] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 190.
[65] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 184.

reolaeth well. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi CNC wrth iddo anelu at y nod hwn.

Rydym hefyd yn dal i bryderu ynghylch peryglon gorgyffwrdd rhwng swyddogaethau CNC a'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd arfaethedig. Byddwn am archwilio hyn yn ein gwaith craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1.

**Argymhelliad 10.** Dylai CNC adrodd yn ôl i'r Pwyllgor (cyn i'r Bil gael ei gyflwyno) ar y casgliadau y mae wedi dod iddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r ddeddfwriaeth yn ddigonol.

# 5. Plannu coed a chynhyrchu pren

**67.** Mae cyfraddau plannu coed yn dal i fod yn sylweddol is na tharged Llywodraeth Cymru o 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 hectar y flwyddyn), gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050 (dros 6,000 hectar y flwyddyn), fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig.[66]

**68.** Coetiroedd i Gymru yw strategaeth gyffredinol 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed.[67] Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu dangosyddion Coetiroedd i Gymru i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas at y diben.[68]

**69.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren.[69] Nod y strategaeth yw cynyddu'n gynaliadwy ac ychwanegu gwerth at bren a dyfir yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn trafod cynyddu'r swm o bren sy'n mynd i'r farchnad o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rheoli gan CNC.

**70.** Dywedodd CNC wrth y Pwyllgor fod ganddo dîm sydd wedi'i neilltuo i'r rhaglen goetiroedd, sy'n canolbwyntio ar ehangu a chyflymu plannu coed. Mae'n gweithio gyda phartneriaid i adolygu'r prosesau i weld ble y gellir eu cyflymu.[70] Esboniodd CNC hefyd ei fod yn gweithio gyda pherchnogion coetiroedd preifat ac yn plannu coed i wneud iawn am y rhai a gollir pan gymerir tir oddi wrth goedwigaeth at ddibenion eraill.[71]

**71.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y mae CNC yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng plannu digon o gnydau pren masnachol a choed at ddibenion bioamrywiaeth. Dywedodd Rachel Cunningham wrth y Pwyllgor:

> *"Harvesting timber is an essential part of … sustainable management …, you need to fell trees, you need to encourage regrowth … to get the biodiversity gains that we want …. About 80 per cent of the woodland is managed as a plantation, as a*

[66] Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig: The path to Net Zero and progress on reducing emissions in Wales, Rhagfyr 2020.
[67] Llywodraeth Cymru: Coetiroedd i Gymru: strategaeth, Mawrth 2009.
[68] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 27 Mawrth 2025.
[69] Llywodraeth Cymru: Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, 16 Ebrill 2025.
[70] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 205.
[71] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 206.

*crop, and about 20 per cent is then managed as a natural forest with very minimal intervention."*[72]

**72.** Ni chaniateir i CNC reoli ei incwm o bren ar draws blynyddoedd ariannol oherwydd bod ei gyfrifon wedi'u cyfuno â rhai Llywodraeth Cymru. Mae natur anwadal y farchnad bren hefyd yn effeithio ar allu CNC i reoli ei gyllid mewn perthynas ag Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Gan hynny, mae CNC wedi'i gyfyngu o ran sut y gall gynllunio a buddsoddi mewn tyfu a chynaeafu pren.

**73.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllideb warantedig o £33 miliwn i CNC i'w helpu i ymdrin ag ansicrwydd yn ei incwm o bren ar gyfer 2024-25. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng CNC a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gall CNC ymdrin â'r ansicrwydd hwn yn fwy effeithiol yn y dyfodol, er mwyn i CNC allu dod â mwy o bren i'r farchnad. Dywedodd Rachel Cunningham: [73]

*"We see it [the timber industrial strategy] as a big opportunity, actually, because it is perceived that there's this conflict between commercial harvesting and biodiversity, but this could be a real help in terms of providing the clarity of what the aims of the Welsh Government woodland estate actually are in terms of the commercial production, and all the other associated benefits that come with commercial production, because there are lots of other benefits, around the economy, jobs, skills".*[74]

**74.** Pan ofynnwyd iddi a fyddai coed a gwympodd mewn stormydd diweddar yn cael eu colli i'r farchnad, dywedodd Ceri Davies:

*"We lost … probably half a year's worth of timber supply in that last storm. That's a significant quantity of timber, but …. that's not lost timber; we can feed that into the market chain over the next couple of years. But then, what we can do is accelerate the work that we would want to do then on biodiversity and peatland."*[75]

---

[72] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 209.
[73] Llywodraeth Cymru: Dogfen ymgynghori'r strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren, Ionawr 2025.
[74] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 211.
[75] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Cofnod y Trafodion, 12 Mawrth 2025, paragraff 213.

## Ein barn ni

Rydym eisoes wedi nodi ein pryderon ynghylch diffyg cynnydd o ran plannu coed, ac rydym wedi codi hynny gyda'r Dirprwy Brif Weinidog. Cwympodd llawer o goed ar ystad goetir Cymru yn ystod y stormydd diweddar. Rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid ailblannu, ailstocio, neu ganiatáu aildyfiant naturiol gan ystyried amryw o ffactorau amgylcheddol yn ogystal â rhai masnachol. Dylai hyn gynnwys defnyddio mwy o rywogaethau brodorol a phlannu cymysg i wella bioamrywiaeth a meithrin gwydnwch rhag clefydau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu na chaniateir i CNC reoli ei incwm o bren ar draws blynyddoedd ariannol, a'i fod, o'r herwydd, wedi'i gyfyngu o ran sut y gall gynllunio a buddsoddi mewn tyfu a chynaeafu pren. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael sylw yn y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren sydd ar ddod.

**Argymhelliad 11.** Dylai CNC gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren sydd ar ddod yn caniatáu i CNC reoli ei incwm o bren masnachol yn effeithiol ar draws blynyddoedd ariannol.